

No.

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cofnodion cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 23 Medi, 2024.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: G. Chapman (Cadeirydd ac Aelod Lleyg); N. Ireland (Is-Gadeirydd ac Aelod Lleyg); Cynghorwyr P. Drake, E. Goodjohn, M.J. Hooper, J.M. Norman, J. Protheroe a N.J. Wood; a M. Evans (Aelod Lleyg).

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles) ac E. Williams (Aelod Cabinet Gofal Cymdeithasol ac Iechyd)

379 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

380 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf, 2024 fel cofnod cywir.

381 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

382 ADRODDIAD DIOGELU CORFFORAETHOL BLYNYDDOL 2023/2024 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2024 fel y cynhwyswyd yn yr agenda gan Reolwr Gweithredol y Gwasanaethau Cyflogaeth.

Cyfeiriodd y Cynghorydd M. Hooper at nifer yr achosion lle cofnodwyd bod camdriniaeth yn erbyn oedolion wedi digwydd yng nghartrefi pobl eu hunain a hefyd y nifer uchel o adroddiadau yn ymwneud â'r rheini sy'n 85 oed ac yn hŷn. Dywedodd y byddai'n ddiddorol deall a oedd camdriniaeth yng nghartrefi pobl eu hunain yn gategori uchel ar gyfer y garfan honno. Holodd y Cynghorydd Hooper hefyd y data yn Nhabl 1 - Cyfraddau Cydymffurfio ar gyfer Dechreuwyr Newydd Corfforaethol ac Ysgolion. Yn ogystal, mynegodd y Cynghorydd Hooper bryder

No.

ynghylch nifer y plant a'r teuluoedd sy'n mynd i westai, a allai o bosib beryglu plant. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol y byddai gwybodaeth am y rheini a oedd yn 85 oed ac yn hŷn a'r cyfraddau cydymffurfio yn cael eu hystyried y tu allan i'r cyfarfod.

Gwnaeth y Cynghorydd J. Protheroe sylw ar yr 825 o adroddiadau diogelu o fewn Gofal Cymdeithasol Oedolion, y symudodd 300 ohonynt i'r cam ymholi. Gwnaeth ganmol y gyfradd gwblhau o 99% o fewn saith diwrnod gwaith y targed graddfa amser, a oedd yn welliant ar y flwyddyn flaenorol. Cyfeiriodd y Cynghorydd Protheroe at y 546 o gyfarfodydd strategaeth gyda'r Gwasanaethau Plant a gofynnodd a oedd amserlenni statudol tebyg i'w dilyn. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol y byddai'r ymholiad yn cael ei ddilyn i fyny.

Gofynnodd y Cadeirydd, Mr G. Chapman a oedd angen gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) manwl ar gyfer Aelodau Etholedig. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod hynny wedi'i wirio a bod gan awdurdodau lleol eraill farn wahanol, ond roedd Cyngor y Fro wedi gwneud y penderfyniad bod angen gwiriad manwl.

Gofynnodd y Cadeirydd hefyd a oedd darpariaeth o fewn Addysg ac ysgolion i gynnal gwiriadau GDG ar sail dreigl. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod gofynion gwahanol i'r sector gofal ac i ysgolion. Roedd gan staff unigol ddyletswydd i roi gwybod i'r Cyngor os oedd rhywbeth wedi digwydd a byddai'r Heddlu hefyd yn gwneud y Cyngor yn ymwybodol pe bai rhywun yn cael ei ymchwilio. Ychwanegodd y Cadeirydd efallai bod prawf sampl yn rhywbeth i'r Cyngor ei ystyried.

Byddai'r nifer gwirioneddol ar gyfer y 41% o Ofalwyr/Gweithwyr Cymorth a oedd yn gweithio gydag Oedolion mewn Perygl a atgyfeiriwyd gan fod eu plentyn/plant yn destun ymholiadau Adran 47 neu ar y gofrestr Diogelu Plant, yn cael ei anfon drwy e-bost.

Mynegodd y Cadeirydd bryder ynghylch defnydd Cyngorau o lety gwely a brecwast, yn enwedig i bobl ifanc 16 i 18 oed sy'n agored i niwed. Gan mai dyma rai o'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, roedd angen i Gynghorau sicrhau nad oeddent yn eu rhoi mewn sefyllfaoedd a fyddai'n peri risg.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau nac ymholiadau pellach, gwnaeth y Pwyllgor

PENDERFYNWYD –

- (1) Nodi cynnwys y cyfeiriad gan y Cabinet dyddiedig 18fed Gorffennaf, 2024 ac Adroddiad Diogelu Corfforaethol Blynyddol 2023/24.
- (2) Bod sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mewn perthynas â'r Adroddiad Diogelu Corfforaethol Blynyddol 2023/2024 yn cael eu cyfeirio at y Cabinet.

Rhesymau dros benderfyniadau]

- (1) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Rhoi gwybod i'r Cabinet am farn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

383 HUNANASESIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYNGOR BRO MORGANNWG
2023/24 (CYF) –

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 5 Medi 2024 fel y cynhwyswyd yn yr agenda.

Dywedodd y Cynghorydd E. Goodjohn fod fersiwn 2023/24 o'r adroddiad yn welliant ar fersiwn y llynedd, a diolchodd i'r Tîm Perfformiad. Dywedodd y Cynghorydd Goodjohn y dylai'r adroddiad gynnwys mwy o naratif mewn perthynas â'r gweithgarwch ymgysylltu wedi'i wneud gan y Cyngor yn ogystal â rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'r materion o ran caffael i gyfiawnhau'r sgorau wedi'u rhoi i'r agweddau hyn ar yr adran defnyddio adnoddau. Tynnodd y Cynghorydd Goodjohn sylw at y ffaith hefyd y byddai'n ddefnyddiol deall nifer y bobl a oedd wedi ymateb i arolygon barn ar y cyfryngau cymdeithasol. Yn ogystal, nid oedd sylwebaeth ynghylch Hyrwyddwyr y Cyngor yn cynnwys popeth yr oedd yr Hyrwyddwyr yn ei wneud, ac roedd hyn yn rhywbeth y gellid ei godi ar gyfer adroddiad y flwyddyn nesaf. Teimlai'r Cynghorydd Goodjohn nad oedd angen yr holl wybodaeth / data perfformiad, a gofynnodd a ellid symleiddio hynny. Yn ogystal, roedd hefyd o'r farn bod angen i'r adroddiad gynnwys mwy o adlewyrchiad o gamau gweithredu a oedd wedi methu targedau a sut roedd y rheiny'n gysylltiedig â meysydd i'w gwella. Byddai hynny'n rhywbeth ar gyfer adroddiad y flwyddyn nesaf. Yn olaf, dywedodd y Cynghorydd Goodjohn y byddai rhestr o amcanion nad oeddent wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn a chrynodeb o'r gwersi a ddysgwyd hefyd yn ddefnyddiol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd J. Protheroe at gwynion a'r cynnydd yn nifer y cwynion o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Gofynnodd am ragor o fanylion ynghylch pa waith a wnaed dros yr haf mewn perthynas â chwynion corfforaethol a nodwyd y byddai'r Adroddiad Cwynion Blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio dros y misoedd nesaf.

Ailadroddodd y Cynghorydd M. Hooper sylwadau'r Cynghorydd E. Goodjohn ynghylch y gwelliant yn yr adroddiad eleni. Dywedodd fod angen i'r adroddiad Hunanasesiad Blynyddol gynnwys rhagor o wybodaeth mewn perthynas ag Oracle Fusion a gofynnodd hefyd a ellid gwirio'r naratif mewn perthynas â'r Cronfeydd Ffyniant Bro a Thrawsnewid Trefi eto am gywirdeb. Pwysleisiodd y Cynghorydd Hooper bwysigrwydd crynodeb cyhoeddus a ffeithluniau i helpu'r ddealltwriaeth a'r cyfathrebu â'r cyhoedd a gofynnodd hefyd am gynnwys diffiniadau'r sgorau yn yr adroddiad ei hun ac nid trwy hyperddolen yn unig.

Gofynnodd y Cadeirydd, Mr G. Chapman, a ellid symleiddio'r broses gyfan ac ai ymarfer cydymffurfio yn unig oedd hwn. Dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol nad oedd y Cyngor yn ystyried yr Hunanasesiad Blynyddol fel ymarfer cydymffurfio, a'i fod yn allweddol o ran sut roedd y Cyngor yn edrych ar ei weithgarwch gwella. Gofynnodd y Cadeirydd hefyd a ellid gwella'r defnydd o ganrannau a ffigurau gwirioneddol mewn niferoedd, yn enwedig mewn perthynas ag

No.

ymgysylltu ac ymgynghoriadau. Gofynnodd y Cadeirydd hefyd a ellid ei wneud yn gliriach lle nad oedd camau gweithredu wedi'u cyflawni'n llawn yn ogystal â'r rhesymau pam.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau nac ymholiadau pellach, gwnaeth y Pwyllgor

PENDERFYNWYD –

- (1) Nodi Hunanasesiad Blynyddol drafft Cyngor Bro Morgannwg 2023/24.
- (2) Y dylid cyfeirio sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio at y Cabinet i'w hystyried ac i'r Cabinet roi gwybod a yw'n derbyn yr argymhellion unigol a godwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, sef:

Ar gyfer adroddiad 2023/24:

- Mwy o naratif mewn perthynas â barn y Cyngor ar weithgarwch ymgysylltu;
- Mwy o naratif mewn perthynas â dyfarniad caffael y Cyngor;
- Nifer gwirioneddol y bobl a oedd wedi ymateb i bolau cyfryngau cymdeithasol;
- Mwy o naratif mewn perthynas â'r materion yn ymwneud ag Oracle Fusion;
- I'r sylwebaeth mewn perthynas â'r gronfa Lefelu i Fyny a thrawsnewid trefi gael ei gwirio ddwywaith am gywirdeb;
- I'r diffiniadau ar gyfer pob sgôr gael eu hymgorffori yn yr adroddiad ei hun ac nid trwy hyperddolen;
- Lle defnyddir canrannau fel ffigwr, darparu'r union nifer hefyd; a
- Pwysigrwydd crynodeb cyhoeddus a ffeithluniau i gynorthwyo dealltwriaeth a chyfathrebu.

Ar gyfer adroddiad 2024/25:

- Mwy o gynnwys ynghylch gwaith Hyrwyddwyr o ran eu gwaith ymgysylltu;
- Symleiddio swm y wybodaeth / data perfformiad yn yr adroddiad;
- Mwy o fyfyrion a naratif mewn perthynas â meysydd datblygu;
- Lle nad oedd camau gweithredu wedi'u cyflawni neu eu cyflawni, bod mwy o naratif yn ymwneud â'r rhesymau pam; a
- Cynnwys rhestr o amcanion nad oedd wedi'u cyflawni.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Rhoi gwybod i'r Cabinet am farn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

384 MONITRO RHEOLAETH TRYSORLYS CHWARTER UN 2024/25 (CYF) –

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151 y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 5 Medi 2024 fel y cynhwyswyd o fewn yr agenda.

No.

Gofynnodd y Cynghorydd E. Goodjohn am lefel y benthyca mewnol, ac roedd yn fodlon i ymateb gael ei anfon drwy e-bost.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor

PENDERFYNWYD – Nodi adroddiad monitro Chwarter 1 ar gyfer Rheoli'r Trysorlys 2024/25.

Rheswm dros y penderfyniad

Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

385 CYNNYDD YN ERBYN Y CYNLLUN SEILIEDIG AR RISG ARCHWILIO MEWNOL (PGAMR) –

Manylwyd ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y cynllun archwilio mewnol fel ar 31 Gorffennaf 2024 yn Atodiad A yr adroddiad. Dangosodd fod 9 adolygiad archwilio a gynlluniwyd wedi'u cwblhau sef cyfradd gwblhau o 18%.

Yn seiliedig ar yr asesiad o gryfderau a gwendidau'r meysydd a archwiliwyd drwy brofi effeithiolrwydd yr amgylchedd rheoli mewnol, roedd barn archwilio wedi'i rhoi i 8 o'r 9 archwiliad a gwblhawyd. Roedd 7 archwiliad wedi derbyn Sicrwydd Sylweddol neu Resymol ac roedd 1 archwiliad wedi derbyn Sicrwydd Cyfyngedig. Roedd hwn yn archwiliad dilynol ac mae'r risgiau a nodwyd yn yr adroddiad Sicrwydd Cyfyngedig wedi'u nodi isod.

Yn rhan o gynllun 2024/25, roedd 14 o archwiliadau nad oeddent wedi'u cynnal na'u cwblhau yn 2023/24. Roedd Atodiad B yr adroddiad yn dangos statws yr archwiliadau hyn; roedd 3 wedi'u cwblhau, roedd 10 ar y gweill ac roedd 1 eto i'w ddyrannu.

Hyd yn hyn roedd 21 o argymhellion wedi'u gwneud i wella'r amgylchedd rheoli. Roedd y cynnydd a oedd yn cael ei wneud wrth weithredu'r rhain yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan y tîm Archwilio a'i adrodd i'r Pwyllgor.

Mewn perthynas â'r archwiliad Gwerthuso a Dyfarnu Tendrau Dilynol - Gwasanaethau Adeiladau (Gwasanaethau Tîm Cynlluniedig a Phrosiectau) a'r farn sicrwydd Cyfyngedig, gofynnodd y Pwyllgor i'r Pennaeth Gwasanaeth neu'r Cyfarwyddwr gael ei wahodd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor i roi diweddariad ac adroddiad sicrwydd.

Dywedodd Mr N. Ireland (Is-gadeirydd ac Aelod Lleyg) y byddai'n ddefnyddiol cael canfyddiadau argymhellion yn yr adroddiad eglurhaol ar gyfer adroddiadau Sicrwydd Cyfyngedig yn y dyfodol.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch blaenoriaethu archwiliadau ac a oedd yn bosib ychwanegu hynny at Atodiad A, dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol nad oedd yn syml oherwydd materion yn ymwneud â logisteg

No.

ac adnoddau. Roedd deialog reolaidd gyda Rheolwyr Gwasanaeth a Chyfarwyddwyr ynghylch amseriadau gwaith adolygu archwilio, gyda rhai archwiliadau wedi'u cynnal yn gynharach a rhai wedi'u gohirio. Fodd bynnag, byddai adroddiadau chwarterol yn y dyfodol yn tynnu sylw at unrhyw archwiliadau nad oeddent yn debygol o gael eu cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn.

O ran yr archwiliad wedi'i gynllunio ar gyfer cyfarfodydd hybrid y Cyngor, gofynnodd y Cyngorydd M. Hooper i'r Aelodau Etholedig gymryd rhan yn y broses honno, yn enwedig o ran eu barn ar drefniadau llywodraethu'r Cyngor. Dywedodd y Cyngorydd Hooper y byddai'n rhannu llythyr a anfonodd at Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd a'r Prif Weithredwr.

Yn dilyn hynny,

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi cynnwys yr adroddiad a'r cynnydd a wnaed yn erbyn Cynllun Seiliedig ar Risg Archwilio Mewnol 2024/25.

(2) Gwahodd y Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr perthnasol i fynychu'r cyfarfod nesaf i roi'r sicrwydd angenrheidiol y byddai gwelliannau'n cael eu gwneud mewn perthynas â'r archwiliad dilynol a arweiniodd at ail adroddiad archwilio barn sicrwydd cyfyngedig.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Cael sicrwydd bod gwelliannau yn cael eu gwneud.

386 MONITRO ARGYMHELLION(PGAMR) –

Rhoddodd yr adroddiad ddatganiad sefyllfa i'r Pwyllgor ar argymhellion archwilio mewnol a wnaed i nodi'r rheini a weithredwyd a'r rheini a oedd yn hwyr yn cael eu gweithredu.

Roedd datganiad sefyllfa o ran argymhellion blaenoriaeth uchel a chanolig archwilio mewnol wedi'u gwneud, wedi'u gweithredu a heb eu cwblhau fel ar 31 Gorffennaf 2024 i'w weld yn Atodiad A yr adroddiad.

Gwnaed argymhelliad i wella gwendid a nodwyd mewn rheolaeth i liniaru'r risg a nodwyd, felly hyd nes y gweithredwyd yr argymhelliad roedd y risg yn parhau.

Hyd yn hyn, roedd 8 argymhelliad blaenoriaeth canolig wedi'u gwneud yn dilyn gorffen archwiliadau o Gynllun Blynyddol eleni. Cytunwyd ar bob un.

Ar hyn o bryd nid oedd unrhyw argymhellion yn hwyr yn cael eu gweithredu naill ai yn y blynyddoedd ariannol presennol neu'r rhai blaenorol.

No.

Gwnaed 5 argymhelliad hefyd mewn archwiliadau a gwblhawyd yn 2022-23 a oedd yn dal i fod â dyddiad gweithredu yn y dyfodol. Roedd manylion y rhain yn Atodiad B yr adroddiad.

Roedd y tîm Archwilio'n monitro'r argymhellion yn rheolaidd a byddai unrhyw oedi neu faterion diangen yn cael eu hamlygu i Uwch Reolwyr ac yn y pen draw, y Pwyllgor.

Dywedodd y Cadeirydd, er nad oedd unrhyw argymhellion yn hwyr yn cael eu gweithredu, fod camau gweithredu lle mae'r dyddiad gweithredu wedi'i wthio yn ôl. Roedd angen rhoi gwybod i Benaethiaid Gwasanaeth / Cyfarwyddwyr perthnasol fod angen blaenoriaethu meysydd penodol. Dywedodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol fod diweddariadau rheolaidd yn cael eu rhoi i Dîm Arweinyddiaeth Strategol y Cyngor.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau nac ymholiadau pellach, gwnaeth y Pwyllgor

PENDERFYNWYD – Nodi'r datganiad sefyllfa ar argymhellion Archwilio Mewnol a wnaed, a weithredwyd ac sy'n weddill ar 31 Gorffennaf, 2024.

Rheswm dros y penderfyniad

Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

387 HUNANASESIAD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO O WYBODAETH A SGILIAU (PGAMR) –

Roedd sefydlu rhaglen hyfforddiant a chymorth parhaus i Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn hanfodol er mwyn sicrhau y gallent gyflawni eu cyfrifoldebau yn hyderus ac yn effeithiol.

Roedd holiadur hunanasesu, yn seiliedig ar gyhoeddiad y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) 'Audit Committees – Practical Guidance for Local Authorities & Police' wedi cael ei ddosbarthu i holl Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er mwyn asesu sgiliau, gwybodaeth a meysydd arbenigedd presennol yr Aelodau ac i nodi unrhyw fylchau neu ofynion hyfforddiant. Dychwelwyd pum holiadur wedi'u cwblhau.

Nododd 100% o'r ymatebion gan Aelodau'r Pwyllgor fod lefel eu gwybodaeth a'u profiad ar draws y 10 datganiad, a ddangoswyd yn Atodiad A yr adroddiad, yn dda neu'n foddhaol.

Dangosodd y canlyniadau fod gan Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sylfaen gadarn gyffredinol o wybodaeth a phrofiad ym meysydd cyfrifoldeb y Pwyllgor.

Gofynnodd yr holiadur hefyd i Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nodi pa wybodaeth a sgiliau a oedd ganddynt a fyddai'n ychwanegu gwerth at waith y

No.

Pwyllgor. Dangosodd yr wybodaeth a gafwyd fod profiad a gwybodaeth, ar lefelau amrywiol, ar draws meysydd allweddol.

Gellid defnyddio'r wybodaeth hon yn awr i lywio'r gwaith o lunio rhaglen ddysgu a datblygu ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Dywedodd y Cynghorydd E. Goodjohn y byddai'n dda gwneud rhywfaint o waith nid yn unig i wella gwybodaeth ond hefyd i wella hyder Aelodau'r Pwyllgor wrth siarad ar eitemau.

Wedi hynny

PENDERFYNWYD –

(1) Bod y wybodaeth adborth a'r meysydd dysgu a datblygu yn yr holiadur hunanasesu yn cael eu nodi.

(2) Bod rhaglen hyfforddi ddrafft yn cael ei datblygu i adlewyrchu barn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

388 ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2023/24 (PGAMR) –

Rhoddodd yr adroddiad gyfle i Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried a gwneud sylwadau ar Adroddiad Blynyddol Drafft y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer 2023/24.

Dangosodd yr adroddiad sut yr oedd y Pwyllgor wedi cyflawni ei Gylch Gorchwyl yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor fel y nodir gan Fesur Llywodraeth Leol 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Roedd wedi cyflawni hyn drwy ganolbwyntio ar ei gyfrifoldebau craidd yn ystod y flwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn dangosodd yr Aelodau eu bod yn awyddus i herio'r adroddiadau a gyflwynwyd iddynt, cadernid gwybodaeth a phroses a gwnaethon nhw awgrymiadau i wella adroddiadau llywodraethu wrth symud ymlaen. Roeddent hefyd yn awyddus i sicrhau bod swyddogion yn dysgu gwersi o faterion a nodwyd ac yn dal uwch reolwyr i gyfrif am wneud y gwelliannau gofynnol.

Cyfeiriodd Mr N. Ireland (Is-Gadeirydd ac Aelod Lleyg) at baragraff 4.4.1 yr Adroddiad Blynyddol a dywedodd y dylid egluro nad oedd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi gweld pob adroddiad archwilio ond dim ond y rhai â Sicrwydd Cyfyngedig. Yn ogystal, dywedodd hefyd fod angen eglurder pellach mewn perthynas â pharagraff 4.4.2 ac o ran y cyfnod adrodd.

No.

Dywedodd y Cadeirydd y dylid cyflwyno sylwadau ynghylch unrhyw faterion yr oedd angen eu codi o fewn y ddogfen ddrafft i Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol o fewn y pythefnos nesaf.

Yn dilyn hynny,

PENDERFYNWYD –

(1) Bod Adroddiad Blynyddol drafft y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2023/24 yn cael ei nodi.

(2) Bod Aelodau unigol o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael pythefnos i ymateb yn ysgrifenedig i Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

389 RHAGLEN GWAITH CYCHWYNNOL 2024/25 (PGAMR) –

Roedd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nifer o swyddogaethau a chyfrifoldebau craidd o fewn ei gylch gorchwyl.

Derbyniodd adroddiadau a chyflwyniadau drwy gydol y flwyddyn i'w alluogi i gyflawni'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau craidd hynny'n effeithiol a rhoi hyder iddo yn llywodraethiant ariannol yr Awdurdod.

Er mwyn galluogi'r Pwyllgor i roi'r sicrwydd hwn ac i sicrhau ei fod yn ymdrin â'i ystod o gyfrifoldebau, cyflwynwyd Blaenraglen Waith (BW) ym mhob cyfarfod, gan nodi'r adroddiadau i'w cyflwyno mewn cyfarfodydd yn y dyfodol, i'w cymeradwyo neu eu diwygio, yn ôl yr angen.

Roedd y BW ar gyfer 2024/25 wedi'i chynhyrchu ac roedd wedi'i hatodi i Atodiad A yr adroddiad.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor gymeradwyo'r BW wedi'i diweddarau neu ofyn am newidiadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

Cytunwyd i adroddiad diweddarau ar brosiect cyfalaf Ysgol Stanwell gael ei gyflwyno.

Gofynnodd y Cadeirydd, Mr G. Chapman, am ddatblygu rhyw fath o log gweithredu fel y gellid olrhain penderfyniadau'r Pwyllgor nad oedd wedi'u cwblhau. Cytunwyd i hynny gael ei ystyried gan y Gwasanaethau Democrataidd.

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi cynnwys Rhaglen Gwaith Cychwynnol 2024/25.

No.

(2) Cymeradwyo'r rhestr o eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf ar 21 Hydref, 2024 yn amodol ar wahodd y Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr i fod yn bresennol i roi sicrwydd mewn perthynas â'r adroddiad barn archwilio gyfyngedig.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Cadarnhau presenoldeb ar gyfer amserlen y cyfarfodydd ar gyfer 21 Hydref, 2024.